**Memorandwm Esboniadol ar gyfer:**

- **Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024**
- **Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi golwg deg a rhesymol ar effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024 a Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2024. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Rebecca Evans AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**19 Tachwedd 2024**

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn darparu gwybodaeth sy'n cwmpasu dau ddarn cysylltiedig o is-ddeddfwriaeth sy'n cael eu gwneud o dan y pwerau yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (“Deddf 1990”).

1.2 Mae adran 62D o Ddeddf 1990 yn darparu bod ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol i'w gwneud i Weinidogion Cymru yn hytrach nag i awdurdod cynllunio lleol.

1.3 Mae Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2024 yn diwygio Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016 i ragnodi swyddogaethau mewn perthynas â phenderfynu ceisiadau datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol ar gyfer prosiectau cynhyrchu trydan o dan 50MW[1] sydd i'w harfer gan berson penodedig yn hytrach na Gweinidogion Cymru.

1.4 Mae Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024 yn diwygio Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) 2016 i ddarparu bod y ffi i Weinidogion Cymru benderfynu ceisiadau am brosiectau cynhyrchu trydan o dan 50MW ond yn daladwy pan fydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu'r cais, yn hytrach na pherson penodedig, o ganlyniad i gyfarwyddyd o dan baragraff 9 o Atodlen 4D i Ddeddf 1990.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Bydd gwneud Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2024 yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd i Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024, ac os cânt eu cymeradwyo, rhagwelir y bydd y ddwy set o Reoliadau yn cael eu gwneud ar yr un pryd ar 11 Rhagfyr. Mae'r ddau offeryn statudol wedi'u cydgysylltu fel y nodir isod.

2.2 Mae'r diwygiad a wneir gan Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024 yn ganlyniadol ar Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2024. Ni fyddai'n bosibl dehongli'r effeithiau rheoliadol a wneir gan bob offeryn statudol ar wahân heb esbonio'r cyd-destun deddfwriaethol ehangach. Felly, lluniwyd Memorandwm Esboniadol cyfansawdd i ddisgrifio'r offerynnau statudol hyn.

---

[1] Ceisiadau datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol am ganiatâd cynllunio ar gyfer adeiladu, addasu neu estyn gorsaf gynhyrchu trydan neu orsaf cynhyrchu trydan o ynni'r gwynt ar y tir, lle disgwylir i'r gallu cynhyrchu, neu'r cynnydd yn y gallu cynhyrchu, fod yn is na 50 megawat.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024

3.1 Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan adrannau 303(1B)(a) a (5) a 333(2A) o Ddeddf 1990.

3.2 Yn unol ag adran 333(3E) o Ddeddf 1990, mae'r Rheoliadau hyn yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd o dan y weithdrefn gadarnhaol.

Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2024

3.3 Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan baragraff 1 o Atodlen 4D i Ddeddf 1990, ac adran 333(2A) a (2B) i'r Ddeddf honno.

3.4 Mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Cefndir

4.1 Fel y nodir ym mharagraff 1.2 uchod, rhaid i geisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol gael eu gwneud yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru, yn hytrach nag i awdurdodau cynllunio lleol. Mae ceisiadau datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol o'r arwyddocâd mwyaf i Gymru o ran eu heffeithiau posibl. Mae adeiladu gorsafoedd cynhyrchu trydan rhwng 10 a 350MW, a gorsafoedd cynhyrchu trydan o ynni’r gwynt ar y tir o 10MW neu'n uwch (heb derfyn uchaf), yn cael eu categoreiddio fel datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Mae estyn neu addasu gorsafoedd cynhyrchu o'r fath, lle disgwylir i effaith yr estyn neu'r addasu gynyddu'r gallu cynhyrchu o 10MW neu'n uwch, hefyd wedi'i gategoreiddio fel datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol. Yn achos estyn neu addasu gorsaf gynhyrchu (ac eithrio gorsaf gynhyrchu trydan o ynni'r gwynt ar y tir) ni ddylai effaith yr estyn neu'r addasu gynyddu'r gallu cynhyrchu cyffredinol y tu hwnt i 350MW.

4.2 Cafodd Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 (Deddf 2024) Gydsyniad Brenhinol ar 3 Mehefin 2024. Mae'n deddfu ar gyfer un gyfundrefn gydsynio unedig ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol yng Nghymru, ar y tir ac ar y môr a bydd yn disodli'r system datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Mae'r amgylchiadau lle bydd prosiectau cynhyrchu trydan yn brosiectau seilwaith arwyddocaol yn debyg i'r amgylchiadau lle mae prosiectau o'r fath yn cael eu categoreiddio fel datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Fodd bynnag, y trothwy isaf fydd 50MW yn hytrach na 10MW. Felly, ni fydd adeiladu gorsaf gynhyrchu, neu orsaf cynhyrchu trydan o ynni'r gwynt ar y tir, o lai na 50MW fel arfer yn brosiect seilwaith arwyddocaol, yn yr un modd

ni fydd addasu neu estyn gorsafoedd cynhyrchu o'r fath o lai na 50MW fel arfer yn brosiect seilwaith arwyddocaol. Unwaith y bydd Deddf 2024 mewn grym, bydd ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer adeiladu, addasu neu estyn gorsafoedd cynhyrchu trydan, lle mae disgwyl i'r gallu cynhyrchu, neu'r cynnydd yn y gallu cynhyrchu, fod o dan 50MW (prosiectau cynhyrchu trydan o dan 50MW) fel arfer yn cael eu gwneud i awdurdod cynllunio lleol.

Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2024

4.3 Bwriad y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yw hwyluso penderfynu ceisiadau datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol ar gyfer prosiectau cynhyrchu trydan o dan 50MW.

4.4 Bydd penderfyniadau hwylusach: yn rhoi mwy o sicrwydd ynghylch y datblygiad y rhoddir cydsyniad iddo gan y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gynt; yn cynyddu'r cyflenwad ynni, yn mynd i'r afael â'r targedau sero net; ac yn gwella effeithlonrwydd busnes a gweithgarwch economaidd drwy annog buddsoddiad.

4.5 Mae gan y broses datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol derfyn amser uchaf o 36 wythnos. Y sefyllfa bresennol yw bod ceisiadau datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol (ac eithrio ceisiadau ar gyfer gosod llinellau trydan uwchben) yn cael eu penderfynu gan Weinidogion Cymru ar ôl cyflwyno adroddiad Arolygydd. Gall penderfynu ar gais gan Weinidogion Cymru ar ôl cael adroddiad Arolygydd gymryd 12 wythnos o'r cyfnod penderfynu o 36 wythnos ar gyfer prosiect datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol.

4.6 O ganlyniad i ddatblygiadau mewn technoleg yn lleihau graddfa ac effaith seilwaith, a gwell dealltwriaeth o effaith y prosiectau hyn, ni fydd prosiectau cynhyrchu trydan o dan 50MW yn ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol yn awtomatig o dan Ddeddf 2024. Felly, ystyrir bod ceisiadau datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol ar gyfer prosiectau cynhyrchu trydan o dan 50MW yn addas yn gyffredinol i'w penderfynu gan berson a benodir gan Weinidogion Cymru, a fydd yn hwyluso penderfynu ceisiadau o'r fath.

4.7 Effaith y Rheoliadau hyn yw y bydd swyddogaethau mewn perthynas â phenderfynu ceisiadau datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol ar gyfer prosiectau cynhyrchu trydan o dan 50MW yn cael eu harfer gan berson penodedig (yn ymarferol Arolygydd o Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW)) yn hytrach na Gweinidogion Cymru. Bydd Gweinidogion Cymru yn cadw'r pŵer o dan Baragraff 9 o Atodlen 4D i Ddeddf 1990 i gyfarwyddo bod y swyddogaethau hyn i'w harfer ganddynt.

Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024

4.8 Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud newid canlyniadol i Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) 2016 i ddileu'r gofyniad i dalu ffi i Weinidogion Cymru am benderfynu cais, lle nad yw'r cais yn cael ei benderfynu ganddynt. Mae hyn yn unol ag egwyddorion cyllid cyhoeddus.

## 5. Ymgynghori

5.1 Nid oedd y Rheoliadau yn destun ymgynghoriad ffurfiol. Y rheswm am hyn yw:

- y byddant yn cael effaith gyfyngedig ar geiswyr, a rhanddeiliaid eraill yn y broses gydsynio (ni fydd y ffactorau sydd i'w hystyried wrth wneud penderfyniad yn newid, bydd y weithdrefn yn aros yr un fath i raddau helaeth, a bydd Gweinidogion Cymru yn cadw'r gallu i gyfarwyddo bod ceisiadau penodol i'w penderfynu ganddynt);
- y profwyd yr egwyddor nad Gweinidogion Cymru sy'n gwneud penderfyniadau mewn perthynas â phrosiectau cynhyrchu trydan o dan 50MW drwy Ddeddf 2024;
- bod terfyn amser i'r newid gan y bydd y system datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol yn cael ei disodli pan ddaw Deddf 2024 i rym;
- ei fod er budd ceiswyr, er mwyn hyrwyddo amcanion Llywodraeth Cymru, a'r cyhoedd yn ehangach i hwyluso penderfyniadau cyn gynted â phosibl gan y bydd penderfyniadau hwylusach: yn rhoi mwy o sicrwydd ynghylch y datblygiad a ganiateir, gan y gwneir penderfyniadau ynghynt; yn cynyddu'r cyflenwad ynni, yn mynd i'r afael â'r targedau sero net; ac yn gwella effeithlonrwydd busnes a gweithgarwch economaidd drwy annog buddsoddiad.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

### Yr opsiynau

6.1 Ystyrir yr opsiynau canlynol:

**Opsiwn 1: Gwneud dim** – Ni chyflwynir unrhyw ddeddfwriaeth, ac felly ni wneir unrhyw newidiadau i'r weithdrefn benderfynu ar gyfer ceisiadau datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol.

**Opsiwn 2: Gwneud y ddeddfwriaeth** – Dileu'r gofyniad i geisiadau datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol ar gyfer prosiectau cynhyrchu trydan o dan 50MW gael eu penderfynu gan Weinidogion Cymru. Yn hytrach, bydd ceisiadau o'r fath yn cael eu penderfynu gan Arolygydd o PEDW a benodir gan Weinidogion Cymru.

6.2 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

Cyfiawnhad dros 2 opsiwn

6.3 Ni chynigir trydydd opsiwn gan nad ystyrir bod ffordd resymol arall o gyflawni bwriad y polisi.

## 7. Dadansoddiad o Gostau a Manteision

7.1 Ymhlith y sectorau y mae'r cynigion yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt mae:

- Llywodraeth Cymru
- PEDW
- Y Diwydiant Datblygu (h.y. y rhai sy'n cyflwyno ceisiadau am ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol)

7.2 Cynhaliwyd y dadansoddiad o gostau a manteision canlynol ar gyfer pob un o'r sectorau uchod:

**Opsiwn 1: Gwneud dim** – Ni chyflwynir unrhyw ddeddfwriaeth, ac felly ni wneir unrhyw newidiadau i'r weithdrefn benderfynu ar gyfer ceisiadau datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol.

Disgrifiad:

7.3 Mae'r broses ymgeisio wedi'i nodi yng Ngorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016, fel y'i diwygiwyd. Yn fras, unwaith y bydd cais yn cael ei dderbyn fel un dilys, mae cyfnod sylwadau o bum wythnos yn dechrau a bydd PEDW yn rhoi cyhoeddusrwydd ac yn ymgynghori yn ystod y cyfnod hwnnw. Ar ôl i'r cyfnod hwn ddod i ben, penodir Arolygydd (o PEDW) a bydd yr archwiliad yn dechrau. Gall yr archwiliad fod ar ffurf sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad, ymchwiliad cyhoeddus neu gyfuniad o'r tri. Bydd yr Arolygydd yn archwilio'r cais ac yn llunio adroddiad ar gyfer Gweinidogion Cymru o fewn 24 wythnos.

7.4 Ar hyn o bryd, ar ôl i'r archwiliad gael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn llunio adroddiad o'r argymhellion ar gyfer Gweinidogion Cymru, gan argymell a ddylid rhoi neu wrthod caniatâd cynllunio. Mae gan Weinidogion Cymru 12 wythnos i lunio a chyhoeddi'r penderfyniad ar ôl iddynt gael adroddiad ac argymhelliad yr Arolygydd.

7.5 Fodd bynnag, ar gyfer llinellau trydan uwchben hyd at 132 KV sy'n gysylltiedig â phrosiectau ynni datganoledig, nid yw Gweinidogion Cymru yn gwneud y penderfyniad. Yn yr achos hwn, ar ôl i'r archwiliad gael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn llunio adroddiad ac yna'n gwneud y penderfyniad ar ran Gweinidogion Cymru. Cyflwynwyd hyn gan Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2019.

7.6 O dan Opsiwn 1, bydd y weithdrefn bresennol hon yn cael ei chynnal.

Costau:

Llywodraeth Cymru:

7.7 Caiff y gyfundrefn datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol ei gweithredu ar sail ‘adennill costau' llawn, ac felly codir ffioedd ar gyfer amrywiol gamau o'r broses. Mae hyn yn cynnwys ffi i Weinidogion Cymru benderfynu'r cais (ffi benderfynu). Mae Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) 2016 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi'r manylion llawn.

7.8 Unwaith y bydd Llywodraeth Cymru yn cael yr adroddiad gan yr Arolygydd, anfonir anfoneb am £14,700 at y ceisydd sef y ffi benderfynu. Caiff hyn ei dalu'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru er mwyn talu am ei chostau penderfynu.

7.9 Drwy ddewis opsiwn 1, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i anfonebu ceiswyr am y ffi hon cyn penderfynu eu cais am ddatblygiad o arwyddocâd cenedlaethol, ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â llinellau uwchben y cyfeirir atynt ym mharagraff 7.5 uchod.

PEDW:

7.10 Bydd y goblygiadau cost presennol yn cael eu cynnal yn ogystal ag adennill y costau hyn.

Y Diwydiant Datblygu:

7.11 Bydd ceisiadau am brosiectau cynhyrchu trydan o dan 50MW yn parhau i gael eu trin yn unol â cheisiadau datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol eraill ac felly bydd ffi o £14,700 (gweler paragraff 7.8) ar gyfer eu penderfynu gan Weinidogion Cymru.

7.12 Yn ogystal, bydd datblygwyr yn parhau i aros 12 wythnos am benderfyniad gan Weinidogion Cymru ar ôl i'r Arolygydd lunio ei adroddiad a gwneud ei argymhelliad. Byddai'r cyfnod penderfynu statudol yn parhau i fod yn gymwys, hynny yw, 36 wythnos o ddyddiad derbyn y cais. Bydd costau cyffredinol cyn datblygu, fel taliadau llog ar unrhyw gyllid, costau gweinyddol, ffioedd cyfreithiol ac ati, yn parhau i gael eu talu wrth aros am benderfyniad Gweinidogion Cymru.

Manteision:

Llywodraeth Cymru:

7.13 Nid oes unrhyw fanteision wedi’u nodi i Lywodraeth Cymru. Gyda datblygiadau mewn technoleg yn lleihau maint ac effaith seilwaith, nid oes angen i Weinidogion Cymru benderfynu ar brosiectau cynhyrchu trydan o dan 50MW yn y rhan fwyaf o achosion mwyach, mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa pan gyflwynwyd y weithdrefn datblygiadau o arwyddocâd

cenedlaethol yn 2016. At hynny, ni fydd y prosiectau hyn fel arfer yn brosiectau seilwaith arwyddocaol o dan Ddeddf 2024, a fydd yn disodli datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol, am y rheswm hwn. Unwaith y bydd y fframwaith cydsynio newydd ar waith, bydd y ceisiadau hyn fel arfer yn cael eu trin gan awdurdodau cynllunio lleol.

PEDW:

7.14 Nid oes unrhyw fanteision wedi'u nodi i PEDW drwy gynnal y weithdrefn bresennol ar gyfer pob math o geisiadau datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol.

Y Diwydiant Datblygu:

7.15 Nid oes unrhyw fanteision materol i'r Diwydiant Datblygu drwy gadw'r weithdrefn bresennol ar gyfer pob math o geisiadau datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Bydd yn parhau'n ofynnol i ddatblygwyr dalu'r ffi penderfynu ac aros am y 36 wythnos statudol llawn am benderfyniad.

**Opsiwn 2: Gwneud y ddeddfwriaeth** – Dileu'r gofyniad i geisiadau datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol ar gyfer prosiectau cynhyrchu trydan o dan 50MW gael eu penderfynu gan Weinidogion Cymru. Yn hytrach, bydd ceisiadau o'r fath yn cael eu penderfynu gan Arolygydd o PEDW a benodir gan Weinidogion Cymru i archwilio'r cais.

Disgrifiad:

7.16 Fel y nodir ym mharagraff 7.4, ar hyn o bryd, ar ôl i'r archwiliad gael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn llunio adroddiad o'r argymhellion ar gyfer Gweinidogion Cymru ac yna bydd ganddynt 12 wythnos i wneud a chyhoeddi'r penderfyniad.

7.17 Byddai dewis opsiwn 2 yn hwyluso penderfyniadau drwy ddiwygio Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016, er mwyn galluogi person penodedig i benderfynu prosiectau cynhyrchu trydan o dan 50MW. Yn y cyd-destun hwn, mae Arolygydd o PEDW yn penderfynu ar geisiadau ar ôl cwblhau ei archwiliad ohonynt. Bydd diwygiadau i Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) 2016 yn golygu mai dim ond pan fydd ceisiadau o'r fath yn cael eu penderfynu gan Weinidogion Cymru y bydd y ffi benderfynu yn daladwy.

7.18 Mae Gweinidogion Cymru yn cadw'r pŵer i adfer ceisiadau datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol o fewn y trothwy hwn ar gyfer eu penderfynu ganddynt pe baent yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

7.19 Gwnaed darpariaeth debyg yn Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2019, a ddirprwyodd y penderfyniadau ynghylch datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol mewn perthynas â gosod llinellau trydan uwchben (gweler paragraff 7.5).

Costau:

Llywodraeth Cymru:

7.20 Nid oes unrhyw gostau wedi'u nodi i Lywodraeth Cymru drwy ddewis opsiwn 2 a dirprwyo penderfynu ceisiadau prosiectau cynhyrchu trydan o dan 50MW i PEDW. Er na fydd Llywodraeth Cymru mwyach yn derbyn incwm ffioedd sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau o'r fath (gweler paragraff 7.8), ni fydd Llywodraeth Cymru mwyach yn ymrwymo unrhyw adnoddau i'r broses hon i warantu talu unrhyw ffi.

7.21 Pan fydd Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo bod prosiect cynhyrchu trydan o dan 50MW i'w benderfynu ganddynt, byddent yn cael y ffi benderfynu o £14,700 i dalu'r costau y maent yn eu hysgwyddo wrth gyflawni'r swyddogaeth hon.

7.22 Ni fydd y newid hwn yn effeithio ar Drysorlys Cymru.

PEDW:

7.23 Ni ddisgwylir i'r adnoddau y bydd eu hangen ar PEDW i ymrwymo i'r archwiliad ac i benderfynu cais fod yn wahanol o dan yr opsiwn hwn o'i gymharu ag Opsiwn 1. Ar ôl i PEDW gwblhau'r adroddiad terfynol bydd yn ofynnol i PEDW gyhoeddi'r penderfyniad ar wefan Llywodraeth Cymru a rhoi gwybod i bob parti sydd â buddiant am y penderfyniad. Mae eisoes yn ofynnol i PEDW hysbysu partïon â buddiant yn y broses archwilio. Yn y rhan fwyaf o achosion, gwneir hysbysiad electronig a fydd yn cynnwys anfon e-bost at yr holl bobl sydd â buddiant. Mae cost ychwanegol hysbysu'r penderfyniad yn de minimis ac felly nid yw wedi'i gostio ar y sail hon. Bydd y gost hon yn cael ei hymgorffori i'r costau cyffredinol a ysgwyddir gan PEDW a'i hadennill drwy'r ffi bresennol i geiswyr.

Y Diwydiant Datblygu:

7.24 Bydd arbedion cost i'r diwydiant datblygu o dan yr opsiwn hwn o'i gymharu ag Opsiwn 1, gan y bydd y ffi gyffredinol a godir am gyflwyno ceisiadau datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol ar gyfer prosiectau cynhyrchu trydan o dan 50MW yn is. O dan opsiwn 2, ni fydd y ffi benderfynu a delir i Weinidogion Cymru ar gyfer ceisiadau o'r fath yn daladwy os nad Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu ar y cais, gan leihau'r ffi ymgeisio berthnasol gyffredinol o £14,700.

Manteision:

Llywodraeth Cymru:

7.25 Ym mis Hydref 2024, roedd 18 cais datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol yn nwylo PEDW. O'r rhain, mae 11 yn geisiadau ar gyfer prosiectau cynhyrchu trydan islaw 50MW. Mae nifer y ceisiadau datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol a gyflwynir wedi cynyddu bob

blwyddyn, fodd bynnag, ni ystyrir bod cynnydd yn nifer y ceisiadau cyn cyflwyno Deddf 2024 yn effeithio ar y buddion polisi a nodwyd.

7.26 Bydd y gallu i Weinidogion Cymru drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros benderfynu'r ceisiadau hyn i Arolygydd yn golygu y gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r adnoddau a arbedir wrth beidio â dod i benderfyniadau ar y ceisiadau hyn i gyflawni'r gwaith angenrheidiol er mwyn penderfynu ceisiadau mwy cymhleth a dadleuol.

7.27 Bydd Gweinidogion Cymru yn cadw'r pŵer i adennill ceisiadau o'r fath fesul achos os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

7.28 Bydd cyflymu'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer ceisiadau o'r fath yn chwarae rôl bwysig wrth helpu i ddarparu seilwaith cynaliadwy a thwf 'gwyrdd', gan gyfrannu at gyflawni ein hymrwymiadau o ran allyriadau carbon a diogelu'r amgylchedd. Mae cynyddu cyflenwad ynni gwyrdd yn genedlaethol, drwy adeiladu seilwaith newydd yn gyflymach, yn cefnogi ein hamcanion sero net a gallai hefyd fod o fudd i'r diwydiant adeiladu, creu swyddi, a chyfrannu tuag at wneud ynni'n wyrddach ac yn fwy fforddiadwy. Gallai cymeradwyo datblygiadau'n gyflymach annog buddsoddiad mewn prosiectau seilwaith o'r raddfa hon, gan ysgogi twf economaidd a chreu swyddi ar draws sectorau gwahanol.

PEDW:

7.29 Bydd Opsiwn 2 yn galluogi PEDW i symleiddio'r prosesau gwneud penderfyniadau ar gyfer y mathau penodol o geisiadau. Ni fydd angen y gweithdrefnau mewnol a ddilynir wrth lunio adroddiad o'r argymhellion i'w anfon at Weinidogion Cymru mwyach ar gyfer ceisiadau am brosiectau cynhyrchu trydan o dan 50MW.

7.30 Bydd arolygwyr yn cymryd perchnogaeth o'r broses ymgeisio o'r dechrau i'r diwedd.

Y Diwydiant Datblygu:

7.31 Mae dau fudd allweddol i'r diwydiant datblygu – yn gyntaf, yr arbedion cost fel y nodir ym mharagraff 7.8, ac yn ail, penderfyniadau cyflymach a'r buddion anuniongyrchol a gyflawnir o ganlyniad i hynny.

7.32 Disgwylir i'r diwydiant datblygu brofi gostyngiad mewn costau sylfaenol ar gyfer ceisiadau datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol sy'n gysylltiedig â phrosiectau cynhyrchu trydan o dan 50MW. Bydd dileu'r ffi benderfynu yn arwain at arbediad o £14,700. Er y gallai'r costau sy'n gysylltiedig â phroses adolygu a gwneud penderfyniadau'r cais weld gwahaniaeth i gyfrif am gostau gweinyddol PEDW, rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn de minimis.

7.33 Ar hyn o bryd, mae gofyniad statudol i benderfynu pob prosiect datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol o fewn cyfnod o 36 wythnos. Fodd bynnag,

drwy ganiatáu i Arolygwyr benderfynu ceisiadau ar gyfer prosiectau cynhyrchu trydan o dan 50MW, gall hyn ostwng yr amserlen bresennol o 12 wythnos, gan ddarparu penderfyniadau cyflymach i ddatblygwyr. Bydd penderfyniadau cynllunio cyflymach yn gwella effeithlonrwydd busnes drwy leihau oedi a chyfyngu ar gostau ariannu. Bydd Opsiwn 2 hefyd yn rhoi mwy o sicrwydd yn y sector ynni gan y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gynt.

## 8. Crynodeb o'r opsiwn a ffefrir

8.1 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

8.2 Mae'r diwygiad deddfwriaethol hwn i'r broses gydsynio bresennol yn fesur arbed costau a fydd yn helpu i gyflymu gweithredu prosiectau ynni gwyrdd hanfodol, gan gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth wrth ddarparu seilwaith cynaliadwy a thwf gwyrdd fel yr amlinellir ym mlaenoriaethau Llywodraeth Cymru a amlinellwyd ar 17 Medi: https://www.llyw.cymru/datganiad-llafar-blaenoriaethaur-llywodraeth.

8.3 Bydd hwyluso penderfyniadau prosiectau ynni cyn gynted â phosibl o fudd i geiswyr, i fynd ar drywydd amcanion Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd yn ehangach wrth i benderfyniadau cyflym leihau costau cyflawni prosiectau seilwaith o'r fath, gan roi mwy o sicrwydd i'r sector ynni a all yn ei dro ysgogi twf economaidd a chreu swyddi mewn sector o bwysigrwydd cenedlaethol.

8.4 Mae dilyn opsiwn 2 yn caniatáu i'r buddion eang a nodir uchod gael eu cyflawni, h.y. arbedion cost a gwneud penderfyniadau hwylusach, heb unrhyw effeithiau negyddol nodedig. Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn cadw'r gallu i gyfarwyddo bod ceisiadau ar gyfer prosiectau cynhyrchu trydan o dan 50MW i'w penderfynu ganddynt, gan ddarparu cam diogelu pe bai angen ymyrraeth weinidogol fesul achos.

## 9. Asesiad o'r Gystadleuaeth

9.1 Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi'i gymhwyso at y diwygiadau arfaethedig. Ni ddisgwylir i'r cynigion gael unrhyw effaith ar lefel y gystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd busnesau yng Nghymru.

## 10. Adolygu ar ôl gweithredu

10.1 Bydd Llywodraeth Cymru yn gallu monitro'r effaith y mae'r newid gweithdrefnol yn ei chael ar yr amserlen gyffredinol ar gyfer cyflawni prosiectau seilwaith.

10.2 Bydd sgyrsiau yn parhau i gael eu cynnal gyda datblygwyr a PEDW, gan alluogi trafodaeth ynghylch unrhyw faterion neu bryderon ynghylch y trefniadau a gyflwynwyd gan y diwygiad deddfwriaethol hwn.

10.3 Bydd Aelodau'r Senedd a'r cyhoedd hefyd yn gallu asesu effeithiolrwydd y trefniadau newydd drwy ohebu ag Ysgrifennydd y Cabinet a gofyn unrhyw gwestiynau i'r Ysgrifennydd yn y Senedd.